

Beth yw Cynnig Gofal Plant Cymru?

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru yn darparu hyd at 30 awr o addysg gynnar a gofal, a ariennir gan y Llywodraeth, i blant tair a phedair oed am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sef darpariaeth am o leiaf 10 awr yr wythnos i blant tair a phedair oed – gan ddechrau, fel rheol, o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed.

O dan y Cynnig Gofal Plant, yn ystod y tymor ysgol mae gan rieni sy'n gymwys hawl i hyd at 20 awr o ofal plant wedi'i ariannu, yn ogystal ag o leiaf 10 awr o addysg gynnar bob wythnos, gan wneud cyfanswm o 30 awr o ddarpariaeth wedi'i hariannu. Mae union nifer yr oriau sy'n cael eu darparu o dan Gynnig Gofal Plant Cymru yn amrywio fesul awdurdod lleol, gan fod llawer yn darparu mwy na 10 awr o addysg gynnar yr wythnos.

Ar ben y 39 wythnos 'yn ystod y tymor', darperir cymorth i helpu gyda chostau gofal plant am naw wythnos o'r gwyliau ysgol. Ar gyfer yr wythnosau hyn, bydd hyd at 30 awr o ofal plant yn cael eu hariannu o dan y Cynnig Gofal Plant i rieni cymwys.

Mae modd defnyddio darparwyr gofal plant yng Nghymru neu yn Lloegr. Os yw'r darparwr yng Nghymru, mae'n rhaid iddo fod wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, neu Ofsted os yw'n gweithredu yn Lloegr. Nid yw gofal plant sy'n cael ei ddarparu gan nanis neu aelodau o'r teulu yn gymwys i dderbyn arian y Cynnig Gofal Plant.



Cynnig Gofal Plant Cymru – Rhieni mewn Addysg a Hyfforddiant

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd y Cynnig Gofal Plant hefyd ar gael i Rieni mewn Addysg a Hyfforddiant. Bydd modd i rieni sydd mewn addysg neu hyfforddiant, felly, wneud cais am y cynnig os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

Fel rhiant mewn addysg neu hyfforddiant, a fydda' i'n gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant?

Byddwch, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rydych yn byw yng Nghymru.
- Mae gennych blentyn cymwys 3 i 4 oed.
- Rydych wedi cofrestru naill ai ar gwrs gradd, cwrs ôl-radd (gan gynnwys y rhai a ddarperir o bell neu ar-lein), sy'n para o leiaf 10 wythnos.
- Rydych wedi cofrestru ar gwrs a ddarperir drwy Sefydliad Addysg Bellach, sy'n para o leiaf 10 wythnos.
- Rydych wedi cael eich derbyn ar gwrs GIG llawn neu ran amser, a ariennir gan y GIG, sy'n arwain at gofrestrriad proffesiynol, e.e. myfyriwr nyrsio.

Pa dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu?

Bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cofrestru ar gwrs, e.e. llythyr neu e-bost cofrestru o'r coleg neu'r brifysgol, yn nodi teitl a hyd y cwrs.



Sut ydw i'n gwneud cais a ble allai' i gael mwy o gyngor?

Mae modd gwneud cais ers dechrau Gorffennaf 2022. I gael gwybodaeth ar sut i wneud cais am y Cynnig Gofal Plant a chyngor manylach am gymorth gofal plant a allai fod ar gael i chi, dylech gysylltu â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol.

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y Gwasanaeth yn eich awdurdod lleol chi yn www.gwybodaethgofalplant.cymru/home



The Childcare Offer for Wales / Cynnig Gofal Plant Cymru